

## Cam-drin Ariannol



Cam-drin ariannol yw'r term a ddefnyddir i ddisgrifio niweidio rhywun drwy gymryd neu eu hamddifadu o'u harian, eitemau neu eu heiddo. Nid yw cam-drin ariannol yn dderbyniol, hyd yn oed os yw'n ymddangos yn ddibwys. **Mae cam-drin ariannol yn drosedd.**

### What is it?

Mae oedolion yn ogystal â phlant mewn perygl o gamdriniaeth ariannol.

Efallai nad yw oedolyn neu blentyn yn gallu amddiffyn ei hun rhag niwed neu ecsploetiaeth oherwydd anabledd dysgu neu gorfforol, nam ar y synhwyrau, eiddilwch neu broblem iechyd meddwl.

Gall cam-drin ariannol ddigwydd ar unrhyw adeg yn unrhyw le, a gall ddigwydd i bobl o bob cefndir. Gall ddigwydd yng nghartref y person, mewn cartref gofal, canolfan ddydd, ysbyty neu mewn man cyhoeddus.

Camdriniaeth ariannol yw defnyddio eiddo, asedau,

incwm, cronfeydd neu adnoddau person heb eu cydsyniad deallus neu eu hawdurdod.

### Cydbabyddiaeth:

Mae'n cynnwys dwyn, twyllo, ecsploetio, rhoi pwysau ar berson o ran ewyllys, etifeddiaeth neu drafodion ariannol, camddefnyddio eiddo neu fudd-daliadau, camddefnyddio pŵer atwrnai parhaus neu bŵer atwrnai parhaol, neu benodeiaeth neu ddirprwyaeth.

### Materion Allweddol:

Achosion anesboniadwy o godi arian o'r banc, gweithgarwch anarferol mewn cyfrifon banc, biliau heb eu talu, prinder anesboniadwy o arian, y person sy'n gyfrifol am yr arian yn gyndyn o ddarparu bwyd a dillad ac ati, diddordeb anarferol gan berthynas, cyfaill, gofalfwr neu werthwr ym materion ariannol yr oedolyn/plentyn.

### Sut I ymateb:

Cadwch eich llygaid ar agor am:

- Anallu anesboniadwy i dalu am nwyddau neu filiau.
- Eitemau personol yn mynd ar goll yng nghartref y person.
- Amodau byw isel o gymharu â'r arian y mae'r person yn ei dderbyn.

### Gweithredu:

Trafodwch eich pryderon gyda'r Gwasanaeth Gofal Cymdeithasol – gwelwch wefan Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru ar gyfer y manylion cyswllt.

**Os yw plentyn neu oedolyn rydych chi'n ei adnabod mewn perygl dybryd ffoniwch 999 neu ffoniwch 101 os ydych chi'n credu bod trosedd wedi ei chyflawni.**